
# Ceramic Series

ABERYSTWYTH ARTS CENTRE · No 1



*Teapot, Porcelain 1984*

## RICHARD LAUNDER

A newly elected member of the Craftsman Potters Association, Richard Launder works exclusively in salt-glazed stoneware. He describes his present work as being 'involved in making pots which aim to explore and expand the area between function and sculpture'. He has worked in production pottery in Devon and Greece and has now established his workshop near Matlock in Derbyshire. He lectures part-time at Chesterfield, Farnham and in Norway and believes that the process of making and teaching pottery are totally interconnected, one feeding positively off the other.

The salt-glazed pottery he works with is usually considered to be stoneware, fired at high temperature around 1250° centigrade, however Richard has been involved in experimental work with what he terms 'salt-glazed earthenware' firing at much lower temperatures than usual. This has produced many new and beautiful glazes and textures and a large selection of this work will be on show in the exhibition.

"This exhibition represents current work by Richard Launder, mostly made during his recent spell in Norway. These thirty pots represent a direction in modern salt-glaze pottery worth the attention of anyone interested in this area.



*Jakobizen IV 1984*



*Jakobizlam V 1984*



*Jacobizlam II 1984*

Richard has served his apprenticeship in the craft, he knows his techniques, his clay, his glazes to the point where they are no longer of over-riding importance, the pot is now the essence of the work and the techniques used properly as the means to that end. Throughout the exhibition erruptions, bumps and minor explosions in the pots show the ability of the potter to allow the rough clay and the means of firing to speak for themselves. The pots begin with clay and take the stamp of the material with them through the fire of the kilns and into their finished forms. They unashamedly carry the mark of the maker's hand, they need to be touched and used.


Richard Launder has obviously a deep repertoire of sources, none becoming so obvious as to swamp the identity of each vessel, but there for those who can see. While being soundly based in tradition (the obvious references to Early German Saltglaze) there are nods in the direction of Voulkos, a glimpse of Neolithic Earth figures, the craggy, fire-burned surfaces of Bizen and Shigaraki, possibly even a leather bucket in one pot. It is refreshing to see a potter capable of allowing such true playfullness to surface in his work without compromising the basic seriousness of intent. Behind this freedom with the techniques sits an intellect visibly using its sources and asking questions through the pots. The use of vestigial handles and spouts is a case in point, many of which have no proper function. In one instance two pots actually work as one since the tiny handle appears on one pot and the equally tiny spout on the other. Somewhere in this work reappraisal of the basic function of a pot is taking place.

One must admire the vigour of the throwing but as much the quite astonishing range of colour displayed in the work on exhibition. This moves from a deep, masculine blue and brown to gently soft feminine colours that no other salt-glaze potter in this country seems to be exploring in this way, at this time.

I believe this body of pots will be found to be both refreshing and important on the present pottery scene. They spring from a knowledge of, and care for, centuries of pottery tradition. Shape and colour used in a total clay context that is a world away from the evanescent forms that current fashion often places before us.

One must keep in mind that Richard Launder is still a young man; it will be interesting to see along which paths this obvious talent will take him in the future."

*Geoffery Fuller*



*Teapot with fossil decoration 1984*

© Aberystwyth Arts Centre

*Designed and printed by Copa Cymru Cyfyngedig, Aberystwyth*

# Y Gyfres Gerameg

CANOLFAN Y CELFYDDYDAU ABERYSTWYTH

Rhif 1

## RICHARD LAUNDER


Mae Richard Launder, sy'n aelod etholedig newydd o Gymdeithas y Crefftwyr Crochenwaith, yn gweithio'n gyfangwbl mewn crochenwaith caled wedi ei wydro â halen. Disgrifia'i waith ar hyn o bryd fel un lle mae'n creu llestri sy'n anelu at arloesi a datblygu y bwlch sydd yn y maes rhwng cynnyrch defnyddiol a cherflunwaith. Bu'n gweithio ar gynhyrchu crochenwaith yn Nyfnaint a Groeg, a sefydlodd ei weithdy yn ymyl Matlock yn Swydd Derby. Mae'n darlithio'n rhan-amser yn Chesterfield, Farnham a Norwy, a chred bod cyd-gysylltiad cyflawn rhwng y broses o greu a rhoi hyfforddiant mewn crochenwaith, gyda'r naill yn elwa oddi ar y llall.



*Cylinder 1984*

*Basket 1984*


Fel arfer ystyrir ei gyfrwng ef, sef crochenwaith wedi ei wydro â halen, yn grochenwaith caled, a bobwyd ar wres uchel o gwmpas 1250° canradd; bu Richard fodd bynnag yn arbrofi â'r hyn a eilw ef yn 'llestri pridd wedi eu gwydro â halen', a bobwyd ar wres llawer is nag arfer. Cynhyrchodd y broses hon amryw effeithiau gwydrog ac ansoddau newydd a hardd, a bydd detholiad cynhwysfawr o'r gwaith hwn i'w weld yn yr arddangosfa.



*Tebot ag addurn ffosil 1984*

"Mae'r arddangosfa hon yn cynrychioli gwaith cyfredol gan Richard Launder, a wnaed, gan mwyaf yn ystod ei ymweliad â Norwy, yn ddiweddar. Mae'r deg ar hugain o botiau sydd yma'n cynrychioli agwedd ar grochenwaith sglein-halen sy'n deilwng o sylw unrhywun sy'n ymddiddori yn y maes hwn.

Mae Richard wedi gwneud ei brentisiaeth yn y grefft, mae'n gwybod ei dechnegau, yn adnabod ei glai a'i sgleiniau i'r graddau nad ydynt bellach yn holl-bwysig; y llestr yw hanfod y gwaith yn awr a'r technegau, a'u defnyddio'n iawn, yw'r cyfrwng i'w gyflawni. Trwy gydol yr arddangosfa bydd yr echdoriadau, y bympiau a'r mân ffrwydriadau yn amlygu gallu'r crochenydd i adael i'r clai amrwd a'r dull tanio siarad drostynt eu hunain. Dechreua'r potiau â chlai ac ânt a delw'r deunydd gyda hwynt drwy dân yr odyn



*Tebot, Porslen 1984*



ac i mewn i'w ffurf orffeneidg. Maent yn dwyn ôl llaw'r gwneuthurwr yn ddigywilydd; maent yn gofyn am eu cyffwrdd a'u defnyddio.


Mae'n amlwg bod gan Richard Launder amrywiaeth fawr o ffynonellau heb fod un ohonynt mor amlwg nes boddi hunaniaeth pob llestr ond maent yno i'r sawl a all eu hadnabod. Er bod ei waith â'i wreiddiau'n sicr mewn traddodiad (gellid cyfeirio at Sglein Halen Cynnar yr Almaen) ceir awgrymiadau o'r Voulkos, cipolwg ar ffigurau pridd y Neolithig, arwynebau clerynog, llosg Bizen a Shigaraki, hyd yn oed efallai fwced lledr mewn un llestr. Mae'n ddiddorol gweld crochenydd yn medru gadael i'r fath fywiogrwydd didwyll ddod i'r wyneb yn ei waith heb iddo amharu ar ddifrifoldeb sylfaenol y bwriad. Y tu cefn i'r rhyddid hwn a'r technegau ceir dirnadaeth sydd yn defnyddio ei ffynonellau'n weladwy ac yn holi cwestiynau trwy gyfrwng y potiau. Mae ei ddefnydd o ddolenni weddilliol yn enghraifft dda o hyn, llawer ohonynt heb unrhyw wir swyddogaeth. Mewn un enghraifft ceir dau lestr yn gweithio fel un mewn gwirionedd gan fod y ddolen bitw fach yn ymddangos ar un llestr a'r big, sydd yr un mor fach, ar y llall. Rhywle yn y gwaith hwn ceir ail-arfarnu swyddogaeth sylfaenol llestr.

Mae grym y taflu i'w edmygu'n fawr ond felly hefyd amrywiaeth ryfeddol y lliw a welir yn y gwaith a arddangosir yma. Mae hwn yn mynd o'r glas a'r brown gwrywaidd i'r lliwiau meddal, tyner benywaidd nad yw unrhyw grochenydd arall yn y wlad fel pe bai'n meddwl am eu harbrofi ar yr adeg hon.

Fe fydd y gyfres hon o botiau, yn fy marn i, yn ddylanwad adfywiol a phwysig ar grochenwaith yn gyffredinol yn yr adeg hon. Maent yn tarddu allan o wybodaeth drwyadl a gofal am ganrifoedd o draddodiad crochenwaith. Mae yma ffurf a lliw yng nghyswllt clai yn gyfangwbl sydd bellteroedd i ffwrdd oddi wrth y ffurfiau diflanedig a roddir ger ein bron mor fynych gan ffasiwn cyfoes.

Mae'n rhaid cofio mai dyn ifanc yw Richard Launder o hyd: bydd yn ddiddorol gweld ar hyd pa lwybrau yr â'r ddawn amlwg hon ag ef yn y dyfodol."

*Geoffrey Fuller*



Jakobizen II 1984